# DARGANFOD HEN DAI CYMREIG
# DISCOVERING OLD WELSH HOUSES

NODDWYR/PATRONS:
Y Gwir Anrhydeddus yr Arglwydd Elis-Thomas, CG, AC; Syr Simon Jenkins, FSA, FRSL; Dr Eurwyn Wiliam, MA, PhD, FSA

*Dathlu Treftadaeth Cymru drwy astudio tai traddodiadol a bywydau'r bobl fu'n byw ynddynt.*

## CYLCHLYTHYR 29 *Mehefin 2019*

**EIN GWEFAN** http://discoveringoldwelshhouses.co.uk yw prif sianel gyfathrebu'r grŵp – defnyddiwch hi i weld mwy o fanylion am y digwyddiadau diweddar a'r rhai sydd ar ddod, ac i edrych ar ein llyfrgell sy'n cynyddu'n gyson ac ar nodweddion eraill.

### GAIR O'R GADAIR

Wel, mae'r gwanwyn yma ac fel Pererinion Caergaint Chaucer gallwn edrych ymlaen at raglen o ymweliadau i dai diddorol. Nawr gan fod y Canghennau yn ymroi i helpu yma mae'n ymddangos i mi ein bod yn wynebu ein blwyddyn bwysicaf fyth ac rwyn falch o ddiolch ymlaenllaw i'n trefnyddion ac i ddeiliaid tai sy'n gwneud hyn yn bosibl. Mae ein grŵp yn iach yn ariannol ac mae'r Canghennau yn wynebu mwy a mwy o waith defnyddiol. Rydym yn brysur ar sawl ffrynt ac mae nifer yr aelodau yn cynyddu'n gyson. Yn ein cyfarfod nesaf o'r Ymddiriedolwyr fe gawn drafod syniadau bywiog ar sut y gallwn weithredu yn y dyfodol. Gyda chaniatâd yr Ymddiriedolwyr gobeithiaf y bydd modd briffio'r Aelodaeth ar y cyfleoedd a gawn yn y CBC ar Sadwrn Mehefin 29ain ym Mhlas Tan y Bwlch. Ar bob cyfrif dowch i CBC (2yp) a'r ddarlith flynyddol gyhoeddus (3yp), a dowch â'ch ffrindiau (manylion isod). Ar Sadwrn 20 Gorffennaf ceir Diwrnod Agored arall ym Mhlas Penmynydd, ger Llangefni ar Ynys Môn (LL77 7SH) o 2-5yp. Croeso i bawb, ac eto dowch â'ch ffrindiau.

Cyn tewi, mae'n rhaid i mi grybwyll y golled fawr o golli gwraig arbennig, Dilys Glynne, un o'r Ymddiriedolwyr cyntaf a chefnogwraig ddiwyro, a thrwy gydol ei bywyd cynhyrchiol roedd bob amser yn awyddus i hybu a gwarchod hen adeiladau Cymru; bydd colled fawr ar ei hôl.

*Richard Cuthbertson, Cadeirydd*

*Celebrating Welsh Heritage through the study of traditional houses and the lives of the people who lived in them.*

## NEWSLETTER 29 *June 2019*

**OUR WEBSITE** http://discoveringoldwelshhouses.co.uk is the Group's main channel of communication – please visit it to see details of recent and forthcoming events and to look at our growing library and other features.

### FROM THE CHAIR

Well, Spring is here and like Chaucer's Canterbury Pilgrims we can all look forward to a programme of interesting house visits. Now that Branches are helping with this I think we may be in for our busiest year yet, and I send many thanks to the organisers and homeowners who make this possible. Our group is in good financial shape and the Branches are doing more and more useful work. We are busy on a number of fronts and membership continues to rise. At the next Trustees meeting we will discuss exciting ideas for how we may operate in future. With the Trustees' permission I hope I can brief the Membership about future opportunities at the AGM on Saturday June 29th at Plas Tan y Bwlch. Please do come to the AGM (2pm) and annual public lecture (3pm), and bring your friends (details below). On Sat 20th July there is another Open Day at Plas Penmynydd, near Llangefni on Anglesey (LL77 7SH) from 2-5pm. All are welcome, again bring your friends.

I cannot end this report without mentioning the sad loss of one of our first Trustees and most stalwart supporters, Dilys Glynne. She was a remarkable lady and in her long and productive life was always keen to promote and protect the old buildings of Wales; she will be greatly missed.

*Richard Cuthbertson, Chairman*



*Tŷ math Eryri (1584-5)/ Snowdonia-type house, Llanwnda*



*Plas Penmynydd, Ynys Môn / Anglesey*

**NEWYDDION DIWEDDARAF GAN YR YSGRIFENYDDES**

Roedd Ebrill yn fis prysur iawn i'r ysgrifenyddes yn ymwneud ag adroddiadau a datganiadau cyllidol sy'n ofynnol gan ein noddwyr (Cronfa Marc Fitch, AHNE Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy a Chymdeithas Archeolegol Cambria), a'r un modd i'n trysorydd wrth gwblhau cofnodion cyllidol diwedd y flwyddyn. Nid ydym wedi ymgymryd â mwy o ddendro-cronoleg na chofnodi archeolegol ers yn gynnar yng ngwanwyn 2019, er y gellir gwneud rhai, unwaith y bydd y blaenoriaethau wedi eu dewis i ddefnyddio'r hyn sydd ar ôl o Gronfa Woodtiger. Mae sawl hanes tai allweddol wedi eu cwblhau (gweler y wefan) ac rydym yn hynod ddiolchgar i bob un a fu'n gweithio'n galed yn yr ymchwil hwn.

Mae nifer o dai cynnar yng Ngogledd Ddwyrain Cymru yn dal yn aros am ymweliad gennym ac, yn dilyn sgwrs yn Sir Feirionnydd, rydym wedi cael gwahoddiad i nifer o dai o amgylch Llanbedr. Cawn geisiadau am ymweliadau ac am gymorth ar draws gogledd Cymru a thu hwnt. Mae nifer y sgyrsiau a roddwyd wedi lleihau, ond gall dilyniant ddatgelu trysorau annisgwyl.

Bellach mae mwy o ganghennau yn ymwneud â'r Prosiect Plwyfi sy'n ystyried ychydig o gofnodion allweddol a gwirio pob tŷ a restrir ym mhob plwyf ym mhob ardal cangen. Pan fydd wedi ei gwblhau bydd yn arf ddefnyddiol i dywys blaenoriaethau'r dyfodol. Tra bod y cyfnod hwn o gyfnerthu yn digwydd, mae'r ymddiriedolwyr yn gobeithio y daw'r canghennau â'u syniadau ymlaen ar gyfer prosiectau lleol a gofyn am gronfeydd DHDC.

Gobeithiwn weld nifer ohonoch yn y CBC ac yn y ddarlith gyhoeddus flynyddol ar 29ain Mehefin, manylion isod.

Margaret Dunn

**CBC 2019 GDHDC**

**Bydd y CBC am 2yp a'r ddarlith gyhoeddus am 3yp yn cael eu cynnal ar Sadwrn 29 Mehefin yn y Stablau, Plas Tan y Bwlch, Maentwrog, Blaenau Ffestiniog, LL41 3YU, Canolfan Parc Cenedlaethol Eryri.**

**(Cofiwch barcio yn rhan isa'r man parcio gorllewinol a gadael digon o amser i gerdded at y Plas. Mae parcio i'r anabl gerllaw.)**

**Croesewir ffrindiau yn gynnes i'r ddarlith gyhoeddus "Adeiladau Nenffyrch yng Nghymru – 1306 i 1626. Y darlithydd fydd Richard Suggett, Uwch Archwiliwr Adeiladau Hanesyddol yng Nghomisiwn Brenhinol Henebion Cymru, Aberystwyth.**



*Bwthyn ffrâm nenfforch ym Mryniau Clwyd / Cruck-framed cottage in the Clwydian Range*

**NEWS UPDATE FROM THE SECRETARY**

April was a very busy month for the secretary in dealing with the detailed reports & financial statements required by our funders (the Marc Fitch Fund, the Clwydian Range and Dee Valley AONB and the Cambrian Archaeological Association), and by our treasurer in completing our end of year financial records. We have not undertaken any more dendrochronology or architectural recording since early spring 2019, although some may be done once priorities have been be selected for using the remaining portion of the Woodtiger Fund. Several key house histories have been completed (see website) and we are very grateful to all who beaver away doing this research.

A number of early houses in North East Wales remain to be visited and, following a talk in Merionethshire, we have been invited to several houses around Llanbedr. Requests for visits and help are received from all over north Wales and beyond. The number of talks being given has dwindled, but follow-up can lead to unexpected treasures.

More branches are now involved with the Parishes Project which looks at a few key records and checks each listed house in the parishes of each branch area. When complete it will be a very useful tool to guide future priorities. While this period of consolidation takes place, the trustees hope that branches will bring forward their ideas for local projects and request DOWH funds.

We hope to see many of you at the AGM and annual public lecture on 29th June, details below.

Margaret Dunn

**DOWHG AGM 2019**

**The AGM at 2pm and public lecture at 3pm will be held on Saturday 29th June at Y Stablau, Plas Tan y Bwlch, Maentwrog, Blaenau Ffestiniog, LL41 3YU, the Snowdonia National Park Centre.**

**(Please park in the west lower carpark and leave enough time to walk up. Disabled parking nearby.)**

**Friends are warmly welcolmed to the public lecture "Building with Crucks in Wales – 1306 to 1626" which will be given by Richard Suggett, Senior Investigator of Historic Buildings at the Royal Commission on the Ancient and Historic Monuments of Wales, Aberystwyth.**



*Carpenters' marks/Marciau gosod saer ar goed to yn, Llansilin*

**OS YDYCH Â DIDDORDEB MEWN HEN DAI** a ddim eto yn aelod, pam na wnewch ystyried ymuno â'r Grŵp? Ysgrifenyddes Aelodaeth yw Ms Zoe Henderson 01824 704 404, membership@discoveringoldwelshhouses.co.uk
Am wybodaethg bellach cysylltwch â Margaret Dunn, secretary@discoveringoldwelshhouses.co.uk 01766 890550

**DIGWYDDIADAU CANGEN**
Archebwch gyda chydlynydd cangen, fel arfer £2. Rydym yn ddiolchgar iawn i ddeiliaid tai am eu croeso a'u lletygarwch.

**CANGEN YNYS MÔN.** Cysylltwch â Sue Hurst (sylwch ar yr ebost newydd):
anglesey@discoveringoldwelshhouses.co.uk
01407 459319. (Archebwch mewn da bryd)
**Mehefin 18fed** 2.15yp. Sgwrs a thaith yn cynnwys Ein Boneddiges Seren y Môr ac Eglwys Santes Wenfrewi, Amlwch (gradd II* 20fed ganrif). Lluniaeth ysgafn yn neuadd yr eglwys, £2 y pen.
**Gorffennaf 20fed** 2yp–5yp. Dydd Agored ym Mhlas Penmynydd, Llangefni, LL77 7SH. Sgyrsiau a theithiau gydol y pnawn. Lluniaeth ysgafn. Mynediad £5. (Yn gysylliedig â Gŵyl Archeoleg CBA).
**Awst** Dim cyfarfod
**Medi Mawrth 10fed** 2yp. Aildrefnu ymweliad i Dinam, Llangaffo. Adeiladwyd yn niwedd C17. Ailfodelwyd y tŷ c1715-20 Nifer mwyaf 20 person. Cost £2 y pen. Yna gobeithiwn ymweld ag Eglwys Llangaffo.

**CANGEN CONWY.** Cysylltwch â Gill Jones 01492 517 330
gidulas@doctorbones.org
**Mehefin 20 Iau** 1yp Ymweld â Dolwyddelan i weld gweddillion Tai Penamnen, Eglwys Santes Gwyddelen a ffynnon Elen. Cyfarfod ar y safle picnic ger gorsaf y rheilffordd.
**Awst** Dim cyfarfod
**Medi** I'w drefnu
**Hydref 18 Gwener** 9.30 yb Arddangosfa 'Sut i ddefnyddio gwefannau perthnasol' Fflatiau Rhos Manor, Llandrillo yn Rhos.



*Golden Grove (1578) Llanasa*

**CANGEN SIR DDINBYCH** Cyswllt: Janice Dale
01490 440427 jadale22@hotmail.co.uk.
**Gorffennaf 27ain** Gelli Aur gyda Changen GDdnCymru (gweler isod)
**Awst** I'w drefnu (o bosib Amgueddfa Dyffryn Maes-glas)
**Medi** Ymweld â LlGC a CBHC (RCAHMW) yn Aberystwyth. Dyddiad i'w gadarnhau

**IF YOU ARE INTERESTED IN OLD HOUSES** and are not already a member, why not consider joining the Group? Membership Secretary is Ms Zoë Henderson 01824 704 404, membership@discoveringoldwelshhouses.co.uk
For further information contact Margaret Dunn, secretary@discoveringoldwelshhouses.co.uk 01766 890550

**BRANCH EVENTS**
Book with branch contacts, usually £2. We are very grateful to house-owners for their hospitality.

**ANGLESEY BRANCH.** Contact Sue Hurst (note new contact email): anglesey@discoveringoldwelshhouses.co.uk 01407 459319 (Please book well in advance)
**June 18th** 2.15pm. Talk and tour of Our Lady Star of the Sea and St Winefride Church, Amlwch (grade II* 20th century). Light refreshments in the church hall, £2 per head.
**July 20th** 2pm to 5pm. Open Day at Plas Penmynydd, Llangefni, LL77 7SH. Talks and tours throughout the afternoon. Light refreshments. Entry £5. (Linked with the CBA Festival of Archaeology.)

**August** No meeting

**September Tues 10th** 2pm Re arranged visit to Dinam, Llangaffo. Built in the late C17. The house was remodelled c1715-20. Max 20 people. Cost £2 per head. We hope to then visit Llangaffo church.

**CONWY BRANCH.** Contact Gill Jones 01492 517 330
gjdulas@doctorbones.org
**June 20th Thurs** 1pm Visit to Dolwyddelan to see the Tai Penamnen houses (remains of), St. Gwyddelen's church and Elen's well. Meet in the picnic area near the train station.
**August** No meeting
**September** To be arranged
**October 18th Fri** 9.30am Demonstration 'How to use relevant websites' Rhos Manor Apartments, Rhos on Sea.



*Paneli derw gwreiddiol mewn bwthyn nenfforch /Original oak panelling in cruck cottage*

**DENBIGHSHIRE BRANCH.** Contact Janice Dale 01490 440427
jadale22@hotmail.co.uk
**July 27th** Golden Grove, Llanasa with NE Wales Branch (see below).
**August** TBC (possibly Greenfield Valley Museum).
**September** TBC Visit to NLW & RCAHMW in Aberystwyth.

**CANGEN LLANSILIN** Cysylltydd Mary Cunnah, marycunnah@yahoo.co.uk
Mae'r grŵp yn cyfarfod ar yr ail ddydd Llun yn y mis am 2yp yn Stafell y Plwyf, Eglwys Llansilin. Lluniaeth.

**CANGEN MEIRIONNYDD**
Does gan y gangen ddim Ysgrifennydd ar hyn o bryd. Mae Aelodau'r Gangen yn cyfarfod ar ddydd Mercher cyntaf y mis rhwng 9,30yb a 12.30yp yn Archifau Dolgellau. Ar hyn o bryd mae yn canolbwyntio ar Brosiect Plwyfi GDHDC (dod o hyd i dai cyn-1700 sydd eto i'w darganfod). Archwiliwyd Llanelltyd, Llandecwyn a Thal-y-llyn yn barod fel ymarfer pen-bwrdd, a bellach mae aelodau yn ymweld â'r tai a ddarganfuwyd.
Os oes gan unrhyw un ddiddordeb yn y prosiect hwn, cysyllter â John Townsend. Gellir gwneud y gwaith hwn ar gyfrifiadur. john@thetownsends.org.uk

**CANGEN GOGLEDD DDWYRAIN CYMRU.** Cysylltydd Margaret neu Wally Barr 01745 888 622, magsbarr@yahoo.co.uk wallybarr@yahoo.co.uk
Cofiwch archebu ymlaenllaw.
**Mehefin 12fed Mercher** 2yp. Ymweld â thy a chyfarfod yn Nhŷ Cerrig, Rhuthun, dyddiedig 1501
**Gorffennaf 27ain Sadwrn** 2yp Ymweliad tŷ a chyfarfod yn y Gelli Aur (1578), Llanasa.
**Awst** dim cyfarfod
**Medi** sgwrs ac ymweliad tŷ i'w gadarnhau



*Ysgubor nenfforch wedi ei hadnewyddu yn Llangynhafal, Sir Ddinbych / Restored cruck barn at Llangynhafal, Denbs*

**CANGEN ERYRI** Cyswllt: Ann Alston: 01758 750322 snowdonia@discoveringoldwelshhouses.co.uk Archebwch ar lein:
http://discoveringoldwelshhouses.co.uk/english/visits.html
**Mehefin 13eg Iau** 2yp Taith dan arweiniad i dŷ a gerddi Wern Manor (sy'n cael ei adnewyddu), Pentre Felin. Nifer mwyaf 20. Dowch â phicnic. Cost yw £5 y pen.
**Gorffennaf 16 eg Mawrth** 11yb i 5yn '2000 o hanes yn nyffryn Nant Gwynant, Eryri'. Teithiau gydag arweinydd o dŷ Bryn y Bedd am hanner dydd, 2 a 4yp. Dowch â phicnic a sgidiau addas a siacedi. Cewch gyfeiriadau wrth archebu.(yn gysylltiedig â Gŵyl Archeoleg CBA.) £5 y pen.
**Awst** Dim Cyfaefod
**Medi 5ed Iau** 2yp. Prosiect Plwyfi: gweithdy arweiniol yn yr Archifau, Doc Fictoria, Caernarfon (gohiriwyd o Ebrill).

**LLANSILIN BRANCH**. Contact Mary Cunnah, marycunnah@yahoo.co.uk.
The group meets on the second Monday of the month at 2pm in the Parish Room, Llansilin Church. Refreshments.

**MERIONETH BRANCH.**
The Merioneth branch does not have a Secretary at present. Members of the Branch meet on the first Wednesday of the month between 9.30am and 12.30pm at Dolgellau Archives. Currently the focus is on the DOWHG Parishes Project (finding pre-1700 houses that have not already come to light). Llanelltyd, Llandecwyn and Tal-y-llyn have been done as a table-top exercise and members are now visiting the houses found.
Anyone interested in this project – which can be undertaken on a computer at home – please contact John Townsend: john@thetownsends.org.uk.

**NORTH EAST WALES BRANCH.** Contact Margaret or Wally Barr 01745 888 622, magsbarr@yahoo.co.uk wallybarr@yahoo.co.uk Please book in advance.
**June 12th Wed** 2pm House visit and meeting at Ty Cerrig, Ruthin, dated to 1501
**July 27th Sat** 2pm House visit and meeting at Golden Grove (1578), Llanasa.
**Aug** no meeting
**Sept** talk and house visit to be confirmed



*Ffrâm goed a ddaeth i'r golwg yn ddiweddar yng Nghoed-poeth /Timber-framing recently uncovered at Coedpoeth*

**SNOWDONIA BRANCH.** Contact: Ann Alston: 01758 750322 snowdonia@discoveringoldwelshhouses.co.uk Book online: http://discoveringoldwelshhouses.co.uk/english/visits.html
**June 13th Thurs** 2pm Guided tour of Wern Manor house and gardens (under restoration), Pentre Felin. Max 20. Bring a picnic. Cost £5 per head
**July 16th Tues** 11am to 5p.m '2000 years of history in the Nantgwynant valley, Snowdonia'. Guided walks from Bryn y Bedd house at noon, 2 and 4 pm. Bring a picnic and suitable footwear and jackets. Directions given on booking. (Linked with the CBA Festival of Archaeology.) £5 per head.
**August** No Meeting
**September 5th Thurs** 2pm Parishes Project: introductory workshop at the Archives, Victoria Dock, Caernarfon, (postponed from April). Tracing all old houses in old Caernarfonshire, find out more about why and how we

Dargopïo pob hen dŷ yn yr hen Sir Gaernarfon, darganfod mwy amdanynt a pham a sut y gallwn goladu amlinelliad o fanylion pob hen dŷ ym mhob plwyf. £2

**Medi 23ain Llun** 2yp Ymweld â Phenhyddgan, Ceidio, ger Nefyn. Mae'r tŷ deulawr Gradd II* hwn gyda sgrin mowld guilloche prin ac mae'r cyplysau to cerfiedig yn dyddio i 1573. Nifer mwyaf 15. £2 y pen.



*Addurn guilloche, Sir Ddinbych/Guilloche decoration, Denbighshire*

**NODION ATGOFFA**

**1. Cofiwch fod yr holl dai y sonnir amdanynt yn y Cylchlythyr hwn ac/neu sy'n gysylltiedig â GDHDC yn eiddo preifat ac felly NID ydynt ar agor i'r cyhoedd.**

**2. Gall aelodau gymryd rhan mewn unrhyw ddigwyddiad mewn unrhyw gangen, yn ogystal ag yn eu cangen eu hunain. Holwch gysylltydd y gangen dan sylw.**

*Ysgrifennwyd y diweddglo i'r rhifyn hwn gan Mary Cunnah, sy'n gysylltydd i'n his-gangen newydd yn Llansilin. Mae'n ein cyflwyno i'r ardal o amgylch Llansilin ym Mhowys.*

**Pentref bychan yw Llansilin yn union oddi fewn i ffin Cymru, a 6 milltir o Groesoswallt.**

Mae tua 700 yn byw yma ond mae'r pentref yn hen iawn ac mae rhannau o Eglwys Sant Silin yn dyddio o'r 13eg ganrif. Ysbeiliodd Prince Hal yr ardal yn 1403 gan ddinistrio Sycharth, annedd Owain Glyndwr, rhyw filltir i'r de o'r pentref. Mae modd gweld o hyd fwnt a beili'r castell.



*Simnai addurnol/Ornate chimneys, Llansilin*

can collate outline details on old houses in each parish. £2

**September 23rd Monday** 2 pm Visit to Penhyddgan, Ceidio, near Nefyn. This Grade II* two-storeyed house with a rare guilloche-moulded screen and carved roof trusses dates to 1573. Max 15. £2 per head.

**REMINDERS**

**1 Houses mentioned in this Newsletter and/or linked with DOWH are private and are NOT open to the public.**

**2 Members may participate in any branch event, not only their own. Check with branch contact.**

*The Endpiece for this issue is written by Mary Cunnah, who is the contact for our new Llansilin sub-branch. She introduces us to the area around Llansilin in Powys.*

**Llansilin is a small village just inside the Welsh border, 6 miles from Oswestry.**

It has a population of about 700 but the village is very old and parts of St Silin's Church date from the 13th century. Prince Hal sacked the area in 1403 destroying Sycharth which was Owain Glyndwr's settlement about 1 mile south of the village. The motte and bailey of the castle can still be seen.



*Grŵp yn ymweld â thŷ fferm Elisabethaidd yn Llansilin / Group visit to Elizabethan farmhouse in Llansilin*

The valley has rich agricultural land and consequently there is a collection of very old 15th and 16th century houses in the area. Some have already been lost to history.

Llansilin has a thriving Historical Society and as a result of Margaret Dunn's lecture last year an off shoot group has been set up to look into the history of the old properties. So far there are about 15 people who have met monthly over the winter to carry out research.

Mae tir amaeth cyfoethog i'w gael yn y dyffryn ac o ganlyniad ceir casgliad o dai hen iawn o'r 15ed a'r 16eg ganrif yn yr ardal. Mae rhai yn barod wedi dirywio fel nad ydynt o unrhyw werth i hanes.

Mae gan Llansilin Gymdeithas Hanes ffyniannus ac o ganlyniad i ddarlith Margaret Dunn y llynedd sefydlwyd grŵp cangen i edrych i mewn i hanes yr hen eiddo hwn. Hyd yn hyn ceir tua 15 o bobl sydd wedi cyfarfod bob mis dros y gaeaf i ymchwilio i'r sefyllfa.

Ar Fai 30ain mae'r grŵp ymchwil yn cynnal parti ar gyfer Cangen Sir Ddinbych o DHDC. Bwriedir iddynt ymweld â Phen y Bryn, dendro ddyddiwyd yn 1485, Eglwys Sant Silin a thro o amgylch y pentref ac ymweliad â Thŷ Newydd sy'n ffermdy Elisabethaidd yng nghanol y dyffryn.

Gan fod Grŵp Ymchwil Llansilin yn ddim ond yn ei fabandod, gobeithir y gellir trefnu teithiau i Archifau ar gyfer dogfennu ar gyfer y dyfodol hanes yr ardal ddiddorol hon ar y Gororau.



*Cyplau'r to/Carved roof-trusses, Llansilin*



*Pen y Bryn (1485), Llansilin*

On 30th May the research group is entertaining a party from the Denbighshire Branch of DOWH. It is planned to take them to visit Pen y Bryn, dendrodated 1485, and St Silin's Church. There will be a walk around the village and a visit to Ty Newydd which is an Elizabethan Farmhouse in the middle of the valley .

As the Llansilin Research Group is only in its infancy it is hoped that outings to other historic houses can be arranged, as well as trips to Archives to help document for posterity the history of this interesting borderlands area.



*Darlun olew o Ben y Bryn (1485), gan Mary Cunnah / Oil painting of Pen y Bryn (1485), by Mary Cunnah*

*Mary Cunnah*

CBHC RCAHMW Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru Royal Commission on the Ancient and Historical Monuments of Wales

Woodtiger Fund

Cambrian Archaeological Association

Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy Clwydian Range and Dee Valley

MARC FITCH FUND